Cyngor Tref Ffestiniog yn cynnig ysgoloriaeth i deithio i Batagonia.

Yn sgil gefeillio llwyddiannus Blaenau Ffestiniog gyda dinas Rawson ym Mhatagonia, mae Cyngor Tref Ffestinog yn cynnig ysgoloriaeth i berson ifanc lwcus. Cynigir yr ysgoloriaeth i berson ifanc rhwng 16 a 30 oed i roi cyfle unigryw iddynt deithio i Dde America er mwyn profi bywyd yn yr ardal yn Yr Ariannin lle sefydlodd y Cymry mentrus hynny eu cymdeithas 150 o flynyddoedd yn ôl.

Penderfynodd y Cyngor yn ystod yr haf i gyfrannu £1,500 i gronfa'r ysgoloriaeth o 2016/2017 ymlaen. Bwriad pennaf y cyngor wrth ddarparu'r cyfle gwych yma yw datblygu a chryfhau'r berthynas rhwng y ddau le. Maent yn awyddus iawn i ddatblygu'r berthynas rhwng plant Rawson a Blaenau Ffestiniog gyda gobaith y bydd y gymuned gyfan yn manteisio ar y berthynas honno.

Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu drwy gystadleuaeth ysgrifennu traethawd o ddim mwy na 1500 o eiriau. Gofynnir i ymgeiswyr egluro'r rhesymau dros fod eisiau teithio i Batagonia, beth y byddent yn ei wneud yno a sut y byddent yn rhannu'r profiadau gydag aelodau'r gymuned ar ôl dod adref. Mae'r dyddiad cau ar lonawr y 12fed 2016 a chyhoeddir yr enillydd ar Fawrth y 1af.

Ysgrifennwyd Tachwedd 2016